

Y CYNLLUN LLES ANIFEILIAID


Mae'r Cynllun Lles Anifeiliaid yn darparu goruchwyliaeth annibynnol o les cŵn heddlu yn Heddlu Dyfed-Powys. Yn ystod 2025–2026, cynhaliodd aelodau'r Cynllun Lles Anifeiliaid ymweliadau rheolaidd â lletyau cŵn, ac adolygwyd trefniadau trin cŵn i sicrhau cydymffurfedd â deddfwriaeth lles anifeiliaid, hyrwyddo arfer da, a chynnal hyder y cyhoedd.



YSTADEGAU 25-26



Amllder ymweliadau a gynhelir bob mis:




MAE'R CYNLLUN YN CAEL EI GYDNABOD AC YN CAEL EI FONITRO MEWN PARTNERIAETH EFOR DOGS TRUST.



GWELDWDYD CYFANSWM O 87 CŴN HEDDLU YN YSTOD Y 58 YMWELIAD A GYNHALIWDYD



Nifer o ymweliadau:



CRYNODEB O'R GWEITHGAREDD

Cynnydd yn nifer yr aelodau ac amllder yr ymweliadau
Galluogwyd ymweliadau amlach o ganlyniad i ehangu aelodaeth lleyg y Cynllun Lles Anifeiliaid yn ystod y flwyddyn, gan gryfhau sicrwydd a chaniatáu nodi a mynd i'r afael â materion lles yn gynharach.

- Cynnydd o 41 ymweliad yn 2024–2025

Gwelwyd gwelliant mewn monitro safonau lles, effeithiau tymhorol (megis rheoli gwres a maeth yn y gaeaf), a dilyniant ar faterion a godwyd yn flaenorol o ganlyniad i'r newid o ymweliadau bob chwe mis i ymweliadau bob chwarter.



Y CYNLLUN LLES ANIFEILIAID

Safonau lles a chydymffurfedd

Ar draws ymweliadau â lletyau cŵn a chartrefi gan swyddogion cŵn, roedd aelodau'r Cynllun Lles Anifeiliaid yn gyson yn gweld bod cŵn mewn cyflwr da neu ardderchog, gyda lletyau cŵn wedi eu hasesu fel rhai glân a diogel, a'u bod yn amgylcheddau priodol. Nodwyd bod gan gŵn fynediad priodol at ymarfer corff, gorffwys a chyfoethogi.

Rhodddwyd sicrwydd o gydymffurfedd â'r Ddeddf Lles Anifeiliaid gan graffu ar y Cynllun Lles Anifeiliaid, gan gynnwys y canlynol:

- Darparu amgylchedd addas
- Mynediad at ddeiet addas
- Y gallu i arddangos patrymau ymddygiad arferol
- Trefniadau llety priodol
- Gwarchod rhag poen, anaf a chlefyd



Ni nodwyd unrhyw bryderon lles systemig na chyffredin yn ystod y cyfnod adrodd.

THEMÂU ALLWEDDOL A NODWYD

Er bod y safonau cyffredinol yn gadarnhaol, nododd aelodau'r Cynllun Lles Anifeiliaid nifer o themâu mynych ar gyfer monitro a gwella. Roedd y rhain yn cynnwys:

1. Gwydnwch a staffio o fewn cyfleusterau lletyau cŵn
2. Cyflwr cerbydau a chludiant
3. Addasrwydd cyfarpar a threfniadau diogelwch
4. Materion yn ymwneud ag ystadau a chynnal a chadw
5. Gwelliannau i gofnodi ac ansawdd data



Cafodd yr holl faterion a godwyd eu trin yn fwy difrifol mewn modd priodol, ac maent yn parhau i fod yn destun goruchwyliaeth barhaus.

Casgliad

Darparodd y Cynllun Lles Anifeiliaid oruchwyliaeth annibynnol gadarn a chyson drwy gydol 2025–2026. Cryfhaodd amllder ymweliadau cynyddol sicrwydd, cynorthwywyd gwelliant parhaus, a chadarnhawyd bod safonau lles uchel yn cael eu cynnal ar gyfer cŵn **heddlu ledled Heddlu Dyfed-Powys**.

